Hysbysiad Prosesu Teg: Yr hyn y mae'r Ysgol, yr Awdurdod Addysg Lleol a'r Llywodraeth yn ei wneud gyda'r Wybodaeth y mae'n ei Dal am Ddisgyblion

Pwnc

Mae'r daflen hon yn nodi'r hyn y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Awdurdod Addysg Lleol Abertawe (AALl) a'ch ysgol yn ei wneud gyda'ch (data) gwybodaeth bersonol a pherfformiad chi neu eich disgyblion.

Casglu gwybodaeth bersonol

Mae'r ysgol yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion a'u rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithiol pan fyddant yn mynd i ysgol newydd, ac maent hefyd yn casglu gwybodaeth ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn ysgol. Derbynnir gwybodaeth hefyd gan ysgolion eraill pan fydd disgyblion yn trosglwyddo.

Bydd yr AALl a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn gwybodaeth am ddisgyblion gan yr ysgol, fel arfer fel rhan o'r hyn a elwir Cyfrifiad Lefel Disgyblion Ysgolion Blynyddol sy'n digwydd ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Bydd yr ysgol, yr AALl a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn gwybodaeth am ganlyniadau arholiadau ac asesiadau a phrofion y cwricwlwm cenedlaethol.

Y defnydd a wneir o'r wybodaeth bersonol hon

Mae **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i wneud ymchwil, yn bennaf i hysbysu newidiadau o ran polisi addysgol ac arian. Gwneir yr ymchwil mewn ffordd sy'n sicrhau na ellir enwi disgyblion unigol. Gallwch weld enghreifftiau o'r math o ystadegau a gynhyrchir yn www.learning.wales.gov.uk neu www.wales.gov.uk/statistics

Mae'r **AALl** hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gasglwyd i wneud ymchwil. Mae'n defnyddio canlyniadau'r ymchwil i wneud penderfyniadau ar bolisi ac ariannu ysgolion, i gyfrifo perfformiad ysgolion a'u helpu i osod targedau. Gwneir yr ymchwil mewn ffordd sy'n sicrhau na ellir enwi disgyblion unigol.

Mae'r **Ysgol** yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu i weinyddu'r addysg y mae'n ei darparu i ddisgyblion. Er enghraifft;

- darparu gwasanaethau addysgol i unigolion;
- monitro ac adrodd ar gynnydd addysgol disgyblion;
- darparu gwasanaethau lles, gofal bugeiliol a iechyd;
- rhoi cefnogaeth ac arweiniad i ddisgyblion, eu rhieni a'u gwarcheidwaid cyfreithiol;
- trefnu digwyddiadau a theithiau addysgol;
- cynllunio a rheoli'r ysgol.

Sefydliadau a all rannu gwybodaeth bersonol

Gall gwybodaeth sy'n cael ei dal gan yr Ysgol, yr AALl a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â disgyblion, eu rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithiol gael ei rhannu â sefydliadau eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny, er enghraifft;

- cyrff addysg a hyfforddiant eraill, gan gynnwys ysgolion, pan fydd disgyblion yn gwneud cais am gyrsiau, hyfforddiant, trosglwyddo rhwng ysgolion neu chwilio am arweiniad ar gyfleoedd;
- cyrff sy'n gwneud ymchwil ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr AALl ac ysgolion, cyn belled â bod camau'n cael eu cymryd i gadw'r wybodaeth yn ddiogel;
- llywodraeth ganolog a lleol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau addysgol;
- gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau iechyd a lles eraill lle mae angen rhannu gwybodaeth er mwyn amddiffyn a chefnogi disgyblion unigol;
- cyrff rheoleiddio amrywiol, fel yr ombwdsmon ac awdurdodau archwilio, lle mae'n ofynnol dan y gyfraith bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith.

Gwybodaeth bersonol sy'n cael ei dal

Mae'r math o wybodaeth bersonol a fydd yn cael ei dal yn cynnwys;

- manylion personol fel enw, cyfeiriad, dyddiad geni a manylion cyswllt rhieni a gwarcheidwaid;
- gwybodaeth am berfformiad mewn asesiadau ac arholiadau mewnol a chenedlaethol;
- gwybodaeth am darddiad ethnig a hunaniaeth genedlaethol disgyblion (defnyddir hyn yn unig i baratoi crynodeb o ddadansoddiadau ystadegol);
- manylion am statws mewnfudo disgyblion (defnyddir hyn yn unig i baratoi crynodeb o ddadansoddiadau ystadegol);
- gwybodaeth feddygol y mae ei hangen i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel pan fyddant dan ofal yr ysgol;
- gwybodaeth am bresenoldeb ac unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd;
- gwybodaeth am gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol gyda disgyblion unigol lle mae angen hyn ar gyfer gofal y disgybl.

Gwybodaeth arall

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr AALl a'r ysgol yn ceisio sicrhau bod gwybodaeth yn gywir ac yn ddiogel. Ni fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei hanfon y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Eich hawliau dan Deddf Diogelu Data 1998

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei dal arnynt gan unrhyw sefydliad. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys;

- yr hawl i ofyn am a derbyn copïau o'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei dal arnoch **chi**, er y gellir gwrthod rhoi gwybodaeth weithiau yn gyfreithiol;
- yr hawl, dan rai amgylchiadau, i atal prosesu gwybodaeth bersonol petai gwneud hynny'n achosi niwed neu ofid;
- yr hawl i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir;
- yr hawl i geisio cael iawndal os nad yw sefydliad yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 ac rydych chi'n dioddef niwed yn bersonol;
- dan rai amgylchiadau *efallai* bydd gan riant neu warcheidwad cyfreithiol disgybl yr hawl i dderbyn copi o ddata personol sy'n cael ei ddal am ddisgybl sydd yn eu gofal cyfreithiol. Bydd achosion o'r fath yn cael eu hystyried yn unigol lle yr ystyrir bod gan yr unigolyn ddealltwriaeth annigonol o'u hawliau dan y Ddeddf.

Yn ogystal â hyn, mae gennych yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio Deddf Diogelu Data 1998, asesu a yw prosesu gwybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf neu beidio.

Ceisio cael gwybodaeth bellach

Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu a'i defnyddio, os oes gennych bryderon ynglŷn â chywirdeb gwybodaeth bersonol, neu os ydych am arfer eich hawliau dan Ddeddf Diogelu Data 1998, dylech gysylltu â'r canlynol;

- Pennaeth eich ysgol/ysgol eich disgybl**;**
- AALl Abertawe ar 01792 636535**;**
- Swyddog Diogelu Data'r Cynulliad Cenedlaethol yn: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;
- gallwch gysylltu â llinell gymorth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 01625 545745;
- mae gwybodaeth hefyd ar gael yn www.ico.gov.uk